



# Hyfforddiant Seiciatreg yng Nghymru.

Fel seiciatrydd dan hyfforddiant yng Nghymru byddwch yn gweithio mewn cyfleusterau arloesol, yn dysgu gan arbenigwyr ac yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n torri tir newydd. A hyn i gyd mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol, lle mae gweithwyr proffesiynol yn gwerthfawrogi hyfforddeion ac wedi ymrwymo i'w datblygiad.

Gallwch ddewis hyfforddi yn y De, yn y Gorllewin neu'r Gogledd, a mwynhau dinasoedd bywiog, arfordiroedd trawiadol neu fynyddoedd ysblennydd, i gyd ar garreg y drws. Ble bynnag y bo'ch lleoliad, byddwch yn profi ymdeimlad cryf o gymuned sy'n gwneud Cymru yn lle mor wych i hyfforddi, gweithio a byw ynddo.

Croeso i'r Hyfforddiant.

# Hyfforddiant Seiciatreg yng Nghymru.

## Dysgu gan y gorau

Mae ein cyrsiau paratoi ar gyfer arholiadau MRCPsych yn cynnwys sesiynau gan rai o arbenigwyr gorau'r byd, felly byddwch yn sicr yn dysgu gan y gorau. Mae'r cwrs yn cael ei gynnal ledled Cymru ac ni fydd raid i hyfforddeion deithio llawer, gan ein bod yn dod â'r dysgu ardderchog atoch chi.

Mae gan ein goruchwylwyr addysgol a chlinigol draddodiad cadarn o ymrwymo eu hunain i ddatblygu hyfforddeion ac mae amser wedi'i neilltuo i oruchwyllo hyfforddeion yn rhan o'u contractau, felly gallwch fod yn hyderus y cewch y lefel gywir o gymorth proffesiynol i fedru datblygu.

## Hyfforddiant â chymhorthdal

O gymharu â chysiau MRCPsych eraill, rydym yn rhoi'r pwys mwyaf ar gynnig cymhorthdal ar gyfer ein hyfforddiant heb gyfaddawdu ar ansawdd. Mae hyn yn golygu bod ein cyrsiau yn costio £100 y flwyddyn ar hyn o bryd, sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd ariannol i chi wireddu cyfleoedd addysgol eraill.

## Cymelliadau

Taliad dros gyfnod o hyd at £1,900 ar gyfer hyfforddeion craidd seiciatreg sy'n astudio yng Nghymru i dalu cost sefyll arholiadau aelodaeth MRCPsych.

## Ymchwil sy'n arloesi

Mae Cymru yn torri tir newydd gyda sawl elfen o ymchwil iechyd meddwl. Mae Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru yn gweithio ym Mhrifysgolion Caerdydd, Abertawe a Bangor ac mae ar flaen y gad yn datblygu arbenigedd ym meysydd niwrowyddoniaeth wybyddol a chlinigol. Mae Sefydliad Ymchwil Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl Prifysgol Caerdydd yn arwain ymchwil i eneteg anhwylderau meddwl, tra bo sganiwr MRI mwyaf pwerus Ewrop yn cael ei ddefnyddio yng Nghanolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd, i ddatgelu ymhellach gyfrinachau strwythur a swyddogaeth yr ymennydd dynol.

Mae gan hyfforddeion y cyfle i fod yn rhan o ddatblygiadau ymchwil arloesol, gan weithio gyda thimau i gwblhau cyfleoedd ymchwil, o PhD i brosiectau llai.

## Cyfleusterau arloesol

Fel hyfforddai seiciatreg yng Nghymru, byddwch yn elwa ar gael gweithio mewn cyfleusterau iechyd meddwl newydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol, lle mae adferiad cleifion yn ganolog i'w dyluniad. Yn wir, mae llawer o'r adeiladau hyn wedi ennill gwobrau pensaernïol am eu dyluniad arloesol.